THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

Cynghorydd Arbennig ar Faterion Rhyngwladol
Disgrifiad o'r rôl

Mae Cynghorydd Arbennig ar Faterion Rhyngwladol yn rôl ddi-dâl i Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Bydd yr unigolyn a benodir yn adrodd yn uniongyrchol i Lywydd y Gymdeithas.

Nodau'r rôl

- Eiriol dros flaenoriaethau'r Gymdeithas ar lefel y Deyrnas Unedig, Ewrop ac yn rhyngwladol
- Hyrwyddo cysylltiadau cryf â chyd-academïau a sefydliadau perthnasol eraill y tu hwnt i Gymru
- Helpu i sicrhau bod gan y Cyngor ddealltwriaeth gryf o faterion rhyngwladol perthnasol

Tasgau

Mae gan y Gymdeithas ddull hyblyg o ymdrin â sut y bydd y Cynghorydd Arbennig yn cyflawni'r nodau uchod. Fodd bynnag, disgwylir i dasgau penodol gynnwys y canlynol (drwy weithio ochr yn ochr â'r Llywydd neu'r Prif Weithredwr fel y bo'n briodol):

- Cynrychioli'r Gymdeithas mewn cyfarfodydd (rhithwir neu mewn person) o rwydweithiau perthnasol y Deyrnas Unedig a rhyngwladol; gallai hyn olygu bod angen teithio dramor o bryd i'w gilydd
- Datblygu perthnasau gydag academïau a sefydliadau perthnasol eraill mewn gwledydd eraill, yn y Deyrnas Unedig a thu hwnt
- Monitro datblygiadau rhyngwladol sy'n berthnasol i addysg uwch a blaenoriaethau eraill y Gymdeithas
- Trefnu sut mae'r Gymdeithas yn derbyn ymwelwyr rhyngwladol i Gymru
- Briffio'r Gymdeithas ar faterion rhyngwladol pwysig, a rhoi cyngor ar safbwyntiau polisi; bydd hyn yn cynnwys adrodd i Gyngor y Gymdeithas o leiaf unwaith y flwyddyn i roi gwybod am ddatblygiadau

Proffil personol

- Dealltwriaeth gryf o gysylltiadau rhyngwladol a llywodraethu/datganoli o fewn y Deyrnas Unedig
- Cofnod rhagorol o weithio gyda phartneriaid rhyngwladol
- Hanes o ragoriaeth academaidd ac/neu lwyddiant mewn rôl uwch-arweinydd
- Diddordeb ehangach yng ngwaith y Gymdeithas, ac ymrwymiad i hyrwyddo ei blaenoriaethau strategol

Nid oes tâl am y rôl hon, ond bydd treuliau rhesymol yn cael eu had-dalu, yn unol â pholisi treuliau'r Gymdeithas.